## ATODLEN 2

## Y GOFYNION SYDD I'W BODLONI GAN BERSONAU NAD YDYNT YN ATHRAWON CYMWYSEDIG ER MWYN CYFLAWNI'R GWAITH A BENNIR YN RHEOLIAD 7

### Athrawon presennol dosbarthiadau meithrin ac mewn ysgolion meithrin nad ydynt yn athrawon cymwysedig

**2.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys yn achos—

(a) athrawon cynorthwyol mewn ysgol feithrin; neu

(b) athrawon dosbarth meithrin,

y caniatawyd eu cyflogi fel athrawon gan baragraff 4 o Atodlen 4 i Reoliadau 1982 ac a oedd yn cael eu cyflogi felly yn union cyn 1 Medi 1989.

(2) Caiff personau o'r fath gyflawni gwaith a bennir yn rheoliad 7 mewn ysgol yn yr un swyddogaeth ag yr oeddynt yn cael eu cyflogi ynddi cyn 1 Medi 1989.